Y Gymdeithas yn clustnodi dros £100,000 i ymdrechion Coronafeirws

Mae Y Gymdeithas (a arferai gael ei hadnabod fel Cymdeithas Elusennol Ynys Môn) wedi clustnodi £106,000 er mwyn gallu helpu grwpiau cymunedol yn y frwydr yn erbyn y Coronafeirws.

Bydd dros £56,000 yn cael ei ryddhau dros y dyddiau nesaf er mwyn helpu prosiectau amrywiol sy'n canolbwyntio ar sicrhau gwytnwch cymunedol yn ystod y cyfnod hwn o gyfyngiadau ar symudiadau.

Bydd y prosiectau yn canolbwyntio ar ddosbarthu bwyd a meddyginiaeth i'r rhai mwyaf bregus yn ogystal â darparu cefnogaeth ymarferol ac emosiynol i'r rhai hynny sy'n dioddef o ganlyniad i'r argyfwng.

Yn gynharach eleni, cytunodd yr ymddiriedolwyr i ryddhau £200,000 er mwyn helpu i liniaru tlodi, salwch a chaledi ariannol a achoswyd ymysg rhai o drigolion Ynys Môn.

Bydd ceisiadau pellach yn cael eu derbyn o heddiw ymlaen (Dydd Iau, 23 Ebrill) a hynny am gyfnod o 4 wythnos er mwyn sicrhau bod gweddill y cyllid yn cael ei ddyrannu.

Eglurodd Cadeirydd Y Gymdeithas, Trefor Lloyd Hughes, "Rydym yn falch o fod wedi gallu clustnodi £106,000 yn y lle cyntaf er mwyn gallu helpu ein cymunedau a'n trigolion ar amser lle mae cymaint o angen."

Ychwanegodd, "Mae yna swm sylweddol o gyllid yn parhau i fod ar gael ar gyfer grwpiau a sefydliadau lleol - os ydynt yn bodloni'r meini prawf - ac rwy'n eu hannog i gyflwyno eu ceisiadau fel rhan o'r ail rownd o geisiadau am grantiau. Gall yr arian hwn wneud gwir wahaniaeth i'r rhai hynny sydd mewn gwir angen ar hyn o bryd o ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws erchyll hwn."

Bydd gwariant cysylltiedig â'r argyfwng Coronafeirws yn cael ei adrodd yn y lle cyntaf i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ac yna i fwrdd Llawn yr Ymddiriedolwyr ymhen amser.

Mae mwy o wybodaeth ar gael yma: https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Trigolion/Budd-daliadau-a-grantiau/Grantiau-cymunedol-elusennau/Y-Gymdeithas-Cronfa-Ymateb-Gymunedol-Covid-19.aspx

Y dyddiad cau ar gyfer yr ail rownd o geisiadau grant yw Dydd Iau, Mai 21ain.

Nodiadau i Olygyddion:

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ym 1990 er mwyn rheoli'r gronfa gyfalaf a drafodwyd gyda Shell (UK) ar ôl iddo roi'r gorau iddi weithredu ei derfynfa olew yn Amlwch a'r fferm danciau gysylltiedig yn Rhosgoch.

Ers hynny mae wedi dyfarnu miliynau fel rhan o raglen grantiau blynyddol ar gyfer grwpiau gwirfoddol a grwpiau cymunedol a phrosiectau adfywio. Buodd gwerthu'r hen safle Shell yn 2015 hefyd roi hwb o £3m i'r gronfa gan eu galluogi i wahodd ceisiadau am grantiau mwy.

Mae Y Gymdeithas yn penderfynnu sut y caiff elw cronfa eitifeddiaeth Shell ei ddosbarthu ymysg achosion da ar draws Môn.

Ym mis Medi 2019, cefnogodd aelodau'r hen Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn gynlluniau i drosglwyddo rheolaeth o'r holl asedau yng nghronfa Shell (UK) i Gymdeithas Elusennol newydd – gaiff ei hadnabod erbyn hyn fel Y Gymdeithas.

Press release

Y Gymdeithas earmarks over £100,000 towards 'Coronavirus' efforts

Y Gymdeithas (formally known as The Isle of Anglesey Charitable Association) has earmarked £106,000 to help community groups in the fight against Coronavirus.

More than £56,000 will be released over the coming days to support various projects focusing on ensuring community resilience during lockdown.

The projects will focus on the distribution of food and medication to the most vulnerable; as well as providing practical and emotional support to those suffering as a result of the crisis.

Earlier this month, trustees agreed to release an initial £200,000 to help alleviate poverty, illness and hardship caused amongst the residents of Anglesey.

Further applications will be accepted from today (Thursday, April 23) for a period of four weeks to ensure that the remaining funding is allocated.

Y Gymdeithas Chair, Trefor Lloyd Hughes, explained, "We're pleased to have been able to earmark an initial £106,000 towards helping our communities and residents at a time of such great need."

He added, "There is still a significant amount funding available to local groups and organisations - which meet the criteria – and I would urge them to submit their bids as part of this second round of grant applications. This funding can and will make a real difference to those currently in dire need as a result of this terrible Coronavirus pandemic."

Expenditure linked to the Coronavirus crisis will be reported on in the first instance to the Chair and Vice Chair and then to the Full Board of Trustees in time.

More information is available here: https://www.anglesey.gov.uk/en/Residents/Benefits-and-grants/Community-charities-grants/Y-Gymdeithas-Covid-19-Community-Response-Fund.aspx

The closing date for the second round of grant applications is Thursday, May 21st.

Notes to Editors:

The Isle of Anglesey Charitable Trust was founded in 1990 to manage a capital fund negotiated with Shell (UK) after it ceased operating its oil terminal in Amlwch and associated tank farm at Rhosgoch.

It has since awarded millions as part of an annual grants programme, for voluntary and community groups, and regeneration projects. The sale of the former Shell site in 2015 also bolstered the fund by £3m, allowing it to invite applications for larger grants.

Y Gymdeithas makes decisions about how the proceeds of the Shell legacy fund are distributed to deserving causes across Anglesey.

In September 2019, members of the old Isle of Anglesey Charitable Trust backed plans to transfer control of all assets in the Shell (UK) fund to a new Charitable Association - now known as Y Gymdeithas.